

# TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU

## CYFARWYDDYD YMARFER

### CORONAFEIRWS COVID-19

---

#### Cefndir

1. Yn ystod y pandemig Coronafeirws COVID-19 bydd angen i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (y Tribiwnlys) addasu ei ffyrdd o weithio er mwyn cyfyngu lledaeniad y feirws a rheoli'r llwyth gwaith yn briodol. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn cael ei gyhoeddi felly am gyfnod o chwe mis.

#### Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn:
  - ystyr "y Rheolau" yw Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008
  - ystyr "Deddf 2020" yw Deddf Coronafeirws 2020
  - ystyr "Deddf 1983" yw Deddf Iechyd Meddwl 1983

#### Archwiliadau Meddygol Rhagarweiniol

3. (i) Mae Rheol 20 o'r Rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i aelod meddygol o'r Tribiwnlys, cyn belled ag y bo'n ymarferol, archwilio'r claf cyn gwrandawriad i ystyried y penderfyniad terfynol, er mwyn ffurfio barn am gyflwr meddyliol y claf.

(ii) Yn ystod y pandemig COVID-19 ni fydd yn "ymarferol" o dan Reol 20 i unrhyw archwiliadau rhagarweiniol gael eu cynnal a hynny oherwydd y risg i iechyd y mae'r archwiliadau hynny yn ei chreu.

#### Penderfynu ar Geisiadau ac Atgyfeiriadau

4. (i) Drwy gydol oes y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn rhaid i'r Tribiwnlys gynnal gwrandawriadau dros y ffôn neu drwy gynadledda fideo lle bo modd, fel y darperir ar eu cyfer gan Reol 2 o'r Rheolau, i benderfynu ar geisiadau ac atgyfeiriadau oni bai bod paragraff 12(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2020 yn gymwys. Pan fo'r darpariaethau hyn yn gymwys, caiff y Tribiwnlys hepgor gwrandawriad os yw o'r farn:
  - (a) ei bod yn anymarferol cynnal gwrandawriad neu y byddai gwneud hynny'n golygu oedi annymunol,
  - (b) o ystyried y materion a godwyd yn yr achos, fod digon o dystiolaeth ar gael i'w alluogi i ddod i benderfyniad heb wrandawriad, ac
  - (c) na fyddai hepgor gwrandawriad yn andwyol i iechyd y claf.
- (ii) Llywydd y Tribiwnlys fydd yn penderfynu ar flaenoriaeth y gwrandawriadau yn ôl yr angen.

(iii) Pan fydd y Tribiwnlys yn penderfynu hepgor gwrandawriad, rhaid i'r Tribiwnlys fynd ati, yn unol â pharagraff 12(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2020, i hysbysu pob parti o'r penderfyniad hwnnw ac o'r amser cynharaf y gallai benderfynu ar y cais neu'r atgyfeiriad.

(iv) Caiff y Tribiwnlys wrth-droi penderfyniad i hepgor gwrandawriad unrhyw bryd ac, os bydd yn gwneud hynny, rhaid iddo roi hysbysiad i bob parti a gwneud unrhyw gyfarwyddydau canlyniadol y mae'n barnu eu bod yn briodol.

### **Cyfansoddiad Paneli**

5. (i) Rhaid i'r Tribiwnlys barhau, yn unol â Deddf 1983, i gael ei ffurfio gan o leiaf dri o aelodau gan gynnwys un aelod cyfreithiol, un aelod meddygol ac un aelod arall nad yw'n gyfreithiol nac yn feddygol, oni bai bod paragraff 11(1) o Atodlen 8 i Ddeddf 2020 yn gymwys. Mae'r darpariaethau hyn yn Neddf 2020 yn gymwys pan fo Llywydd y Tribiwnlys (neu aelod arall o'r Tribiwnlys a benodir gan y Llywydd at y diben) o'r farn ei bod yn anymarferol i'r Tribiwnlys gael ei ffurfio gan o leiaf dri o aelodau, neu y byddai gwneud hynny'n golygu oedi annymunol.

(ii) O dan yr amgylchiadau hyn, yn unol â pharagraff 11(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2020, caiff y Llywydd (neu'r aelod arall hwnnw) fynd ati yn hytrach i benodi'r canlynol i ffurfio'r Tribiwnlys:

(a) un o aelodau cyfreithiol y Tribiwnlys, neu

(b) un o aelodau cyfreithiol y Tribiwnlys ac un aelod arall nad yw'n aelod cyfreithiol.

Syr Wyn Williams

Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Carolyn Kirby OBE

Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru